

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS
FAWRTH 8FED O DACHWEDD 2016 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd (Cadeirydd), Siân Davies, Ian Hession, Mike Denman, Gwyn Howatson, Clwyd Thomas, Deryl Roberts, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIAD: Y Cyngorydd Medwyn Jones.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 13eg o Fedi 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Diolchwyd y Cyngorydd Mike Denman i'r aelodau'r Cyngor Cymuned am fynychu'r agoriad yr estyniad i'r Pafiliwn Rhewl ar 4ydd o Dachwedd 2016.

B. Diolchwyd yr aelodau i'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry am ei daith seiclo yn ddiweddar o Rhyl i Lerpwl i hel arian tuag at gostau'r "Defibrillator" yn Rhewl. Adroddwyd y Cyngorydd Parry ei fod yn trefnu "Bore Goffi" ym Mhafiliwn Rhewl i roi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ar gostau'r ar wybodaeth ymhellach ynglŷn â'r "Defibrillator".

C. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am luniau ynglŷn ar ganlynol:-

1. Ddwy gafna sydd eisiau sylw ar y Llwybr Cyhoeddus ar gaeau rhwng Capel Rhewl a Clwydfro, Rhewl.

2. Moduron yn parcio sydd yn culhau'r ffordd wrth Drivers Cottage yn Rhewl.

D. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor:-

1. Newid defnydd tir i osod carafán sefydlog ar gyfer llety hanfodol i weithiwr fferm, gosod gwaith trin carthion newydd bach a gwaith cysylltiedig yn Y Gables, Llandyrnog.

2. Codi bynker yn Y Gables, Llandyrnog.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc £5,240.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Ragfyr 2016 - £400.00.

2. Treth gyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Ragfyr 2016 - £100.00.

3. Llanynys Community Playing Fields Association - rhodd tuag at gostau'r yswiriant - £1,349.14.

C. Derbyniwyd amcan bris oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych bydd gost o gynnal etholiad y Cyngor Cymuned ar 4ydd o Fai 2017 yn £1,700.00 neu £160.00 nad oes yna etholiad.

D. Derbyniwyd cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 wedi ei Archwilio gan Gwmni BDO, Archwilwyr Allanol y Cyngor.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Dymchwel adeiladau segur a chodi adeiladau amaethyddol ddur ar gyfer cadw anifeiliaid da byw yn Nhŷ Mawr, Llanrhaeadr.

B. Codi loc stablau ar dir yn Glanynys, Llanynys.

C. Codi modurdy a stordy yn "The Shippon", Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl.

D. Codi adeilad amaethyddol yn Hafod-y-Llan, Llanynys.

E. Ymgynghoriad Bylchau ffon ar safleoedd amrywiol o amgylch Sir Ddinbych.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd ymgynghoriad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych bod y datblygwr wedi cynnig enw o "Cwrt Arthur" ar y datblygiad tai ar dir gerllaw Hafod Ynys yn Rhewl. Penderfynwyd yr aelodau i gynnig enwau "Llys Hafod Ynys" neu "Llys Emrys ap Iwan" ar y datblygiad.

B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Prisio a Stadau Cyngor Sir Ddinbych yn hysbysu'r Cyngor Cymuned bod y Cyngor Sir am werthu Fferm Bodynys, Rhewl i'r tenant presennol y Fferm.

C. Derbyniwyd gwybodaeth fod y cyfarfod blynyddol rhwng Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ar Gynghorau Lleol Sir Ddinbych ar nos Fercher 16eg o Dachwedd 2016 yn Neuadd y Sir, Rhuthun am 6.30 o'r gloch.

D. Derbyniwyd gwybodaeth fod "Dathliad y Nadolig" Cyngor Sir Ddinbych ar nos Fawrth 6ed o Ragfyr 2016 yn Eglwys y Plwyf, Rhuddlan am 7.00 p.m.

E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Nid chodwyd unrhyw fater arall.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 10fed o Ionawr 2017 yn Ysgol Gynradd, Rhewl am 7.30 o'r gloch.